Columba Sant *c.* 521–597

Abad a chenhadwr

Roedd Columba o dras frenhinol a gallai olrhain ei achau yn ôl at Niall, brenin Iwerddon ar ddechrau'r bumed ganrif. Fe'i haddysgwyd ym mynachdy Moville wrth draed yr ysgolhaig Finnian, a hyfforddwyd ym mynachlog Whithorn. Symudodd o Moville i Clonard yn Meath lle yr ordeiniwyd ef fel presbyter. Pan oedd yn bump ar hugain oed sefydlodd fynachlog yn Derry ac yna, ryw saith mlynedd yn ddiweddarach, un arall yn Durrow.

Fe'i gelwid, yn ôl y sôn, yn Columba y Durtur. Oddeutu 560 bu'n rhan o anghydfod diflas am lawysgrif a ddatblygodd yn wrthdaro mwy difrifol rhwng llwythau. Cododd wŷr arfog a gorchfygodd y gelynion mewn brwydr, gan adael tair mil yn gelain. Gorfu iddo ffoi ac ymdynghedodd na fyddai'n dychwelyd hyd nes iddo ennill cymaint o bobl i Grist ag a laddwyd ar faes y gad.

Gyda deuddeg cydymaith hwyliodd tua'r gogledd gan lanio ar ynys ar arfordir gorllewinol yr Alban a elwid yn Hy neu Ioua, sef Iona heddiw. Yno penderfynasant gladdu'r cwch ac ymgartrefu. Roedd yr ynys yn agos at deyrnas Albanaidd Dalriada, a lywodraethid gan dylwyth Columba. Rhoddodd Conall y brenin ganiatâd iddo sefydlu mynachlog ar yr ynys, er y bu'n rhaid cadarnhau hynny gyda'r brenin Pictaidd Brude.

Adeiladwyd y fynachlog ar batrwm Celtaidd, sef eglwys bren, cytiau a chychod gwenyn gyda muriau yn eu hamgylchynu. Treuliai'r mynaich eu hamser yn amaethu, pysgota, gweddïo a chopïo llawysgrifau. Yn ddiweddarach daeth galw mawr am y sallwyr a'r Efengylau a baratowyd ganddynt ac fe gymerai lawer iawn o amser y mynaich i'w copïo.

Cenhadaeth Columba oedd mynd â'r Efengyl i'r Pictiaid yn y gogledd, a cheisiodd wneud hynny trwy yn gyntaf ennill eu brenin Brude. Roedd ef yn byw yn ardal Inverness ac roedd yn gyndyn iawn o weld Columba.

Yn y diwedd, ar ôl i Columba ddyfalbarhau, fe'i derbyniwyd a bu i'r genedl droi at Gristnogaeth.

Dywedir bod Columba erbyn hynny wedi newid yn llwyr o fod yn ddyn ymladdgar a threisgar, fel yr oedd yn Iwerddon. Bellach yr oedd yn ddyn duwiol a chariadlawn oedd yn fawr ei ofal dros y tlodion. Aeth y sôn amdano ar hyd ac ar led y wlad, a daeth Iona yn gyrchfan i gleifion a rhai mewn trafferth. Pregethai'n gyson i'r paganiaid gan ddweud, 'Fy Nerwydd i yw Crist Fab Duw', gan herio cred y bobl mewn swynion a'r goruwchnaturiol. Wynebodd wrthwynebiad chwyrn o du'r derwyddon, ond yn raddol daethant hwythau i'w edmygu.

Pan fu farw Brude yn 585 daeth Columba yn gyfaill mynwesol i'w olynydd Abernethi ac aeth ati i genhadu ymhlith llwythau Tayside. Yr oedd Cristnogion eraill hefyd yn cenhadu yn yr Alban yn ystod y chweched ganrif ,megis Kentigern a fu'n gweithio yn Strathclyde a Glasgow, ond nid oedd neb yn cymharu â Columba y Durtur a drodd y Pictiaid at Gristnogaeth. Dywedir mai ef a osododd seiliau cenedl yr Alban. Bu farw ar Iona ar 9 Mehefin 597 yn 76 mlwydd oed. Yn yr un flwyddyn glaniodd y cenhadwr Rhufeinig Awstin yng Nghaint i efengylu yn Lloegr. Ym mlynyddoedd cynnar y nawfed ganrif ymosodai'r Llychlynwyr yn gyson ar yr Alban ac Iwerddon, ac er mwyn diogelu esgyrn Columba fe'u symudwyd i Downpatrick yn Swydd Down yn 824 i'w claddu gydag esgyrn Sant Padrig a Sant Brigit o Kildare.